



Cardiff
Metropolitan
University

Prifysgol
Metropolitan
Caerdydd

Gwybodaeth Ymuno ar gyfer Myfyrwyr Newydd

Rhaglenni Ôl-raddedig,
Rhan-amser ac Ymchwil
2018/19

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents

Llongyfarchiadau

ar gael lle ym

Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd!



Rydym wrth ein bodd eich bod yn ymuno â ni
ac edrychwn ymlaen i'ch croesawu ar y campws

Mae llawer o bethau y bydd angen i chi eu trefnu rhwng nawr a'r pryd y byddwch yn cyrraedd. Rydym wedi crynhoi'r wybodaeth hon i'ch cynorthwyo yn ystod eich wythnosau cyntaf gyda ni ac i'ch helpu i sicrhau eich bod yn cwblhau popeth ar yr amser iawn.

Mae dolen gyda phob pwnc yn y llyfryn hwn a fydd yn rhoi mwy o wybodaeth i chi a/neu ffurflenni i'w cwblhau. Yn fwyaf pwysig bydd yn eich cyfeirio at Wybodaeth Ymuno â'ch Rhaglen.


Mae'n hanfodol eich bod yn darllen y llyfryn hwn a'r Wybodaeth Ymuno â'ch Rhaglen cyn dechrau eich cwrs gan y gallai methu gwneud hynny olygu eich bod yn colli gwybodaeth hanfodol. Os byddwch yn ei chael yn anodd cyrchu unrhyw ran o'r wybodaeth, cysylltwch â:

Derbyniadau

☎ 029 2041 6010

✉ askadmissions@cardiffmet.ac.uk

🐦 [@cmetadmissions](https://twitter.com/cmetadmissions)



Gwybodaeth Ymuno â'r Rhaglen a'r Cyfnod Cynefino

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents

Bydd dolen y Myfyrwyr Newydd yn eich cysylltu â'ch Gwybodaeth Ymuno â'r Rhaglen y bydd angen i chi ei darllen cyn dechrau'r cwrs. Bydd yn cynnwys gwybodaeth hollbwysig y bydd angen i chi ei gwybod ac mae wedi'i rhoi at ei gilydd i chi gan Cyfarwyddwr eich Rhaglen a'r tîm addysgu. Bydd disgwyl i chi ddarllen y wybodaeth i sicrhau eich bod yn cydymffurfio â gofynion arbennig y cwrs cyn dechrau.



Dyddiadau'r Tymhorau

Tymor yr Hydref:

Dydd Llun, Medi 24ain 2018 - Dydd Gwener,
Rhagfyr 14eg 2018

Tymor y Gwanwyn:

Dydd Llun, Ionawr 14eg 2019 - Dydd Gwener,
Ebrill 5ed 2019

Tymor yr Haf:

Dydd Llun, Ebrill 29ain 2019 - Dydd Gwener,
Mehefin 14eg 2019



Ymrestru Ar-lein

Mae ymrestru yn broses bwysig sy'n cadarnhau eich statws yn fyfyrwr Met Caerdydd. Gallwch gwblhau'r broses hunan-ymrestru ar-lein oddi ar unrhyw gyfrifiadur drwy ein 'System Hunan-Wasanaeth'.

Byddwch yn derbyn ebost i roi gwybod i chi pryd y cewch ymrestru. Bydd yr ebost yn cynnwys manylion ar sut i gwblhau'r broses ymrestru, a byddwch yn gallu defnyddio'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair a grewyd wrth wneud eich cais gwreiddiol er mwyn mewngofnodi a chwblhau'r ymrestru.

Yn y cyfamser, i gael rhagor o wybodaeth ar y broses ymrestru, ewch i www.cardiffmet.ac.uk/enrolment

Os byddwch heb dderbyn ebost bythefnos cyn dechrau eich rhaglen, cysylltwch â Derbyniadau er mwyn i chi gael ymrestru cyn i chi gyrraedd y Brifysgol.

Yn ystod y broses ymrestru ar-lein, gofynnir i chi gadarnhau rhai manylion a dewis eich modiwlau. Os nad yw'r wybodaeth a fydd wedi'i rhoi yn gywir, a wnewch chi roi gwybod i'r Tîm Ymrestru.

Mae'r broses ymrestru yn hanfodol gan y bydd yn eich galluogi i gael mynediad i systemau TC Met Caerdydd, i dalu ffioedd ac, yn bwysig, bydd yn eich galluogi i gael eich MetGerdyn.

Os bydd unrhyw ran o'r broses ymrestru yn peri anhawster i chi, cysylltwch â:

Y Tîm Ymrestru

☎ 029 2020 5669

✉ enrolment@cardiffmet.ac.uk

🐦 www.cardiffmet.ac.uk/enrolment



Ffioedd Dysgu a Chyllid

Ffioedd a Chyllid

A chithau'n fyfyrwr ôl-raddedig, ymchwil neu ran-amser, bydd y ffioedd dysgu y byddwch yn eu talu yn dibynnu ar ba gwrs y byddwch yn dewis ei astudio. Bydd costau ynghlwm wrth rai rhaglenni yn ogystal â ffioedd y cwrs.

Mae benthyciadau i fyfyrwr ôl-raddedig ar gael nawr drwy Gyllid Myfyrwr ac, o 2018/19, mae benthyciadau doethuriaethau ar gael hefyd. Gellir cael rhagor o fanylion ar feini prawf cymhwyster ar dudalen perthnasol gwefan Cyllid Myfyrwr yn dibynnu ar ardal eich cartref arferol.

Ysgoloriaethau

Evch i www.cardiffmet.ac.uk/scholarships i gael gweld pa ysgoloriaethau sydd ar gael yn y brifysgol.

Disgownt i Gyn-fyfrwyr

Mae Cyn-Fyfrwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn cael gostyngiad o 25% yn y ffioedd dysgu os ydynt yn ymrestru ar raglenni ôl-raddedig a addysgir yn dechrau yn 2018. Bydd cymhwyster ac eithriadau yn berthnasol.

I gael rhagor o wybodaeth ar bob un o'r uchod, ewch i:

www.cardiffmet.ac.uk/pgfinance.

I gael rhagor o wybodaeth gyffredinol, darllenwch ein Canllaw i Ffioedd Dysgu yma:

www.cardiffmet.ac.uk/payingfees

Os bydd unrhyw gwestiynau gennych, cysylltwch â:

☎ 029 2041 6083

✉ tuitionfees@cardiffmet.ac.uk



Eich Profiad Myfyriwr

Arweiniad gan berson Lleol at y Ddinas i Fyfywrwr Met Caerdydd

Gan Melanie Gray *Myfyriwr Deieteteg*

Ar hyn o bryd, mae Caerdydd yn ddinas yn ei blodau, yn falch i arddangos ei harddwch yng ngherddi rhosynnau Parc Biwt a'r tiroedd o gwmpas castell y ddinas.

Mae ei harddwch naturiol ond yn un rheswm pam mae Caerdydd yn lle mor cŵl i astudio ynddo – mae llawer mwy ac, a minnau'n berson lleol, rwy'n gallu ei fwynhau drwy'r flwyddyn. Felly gwnes i fy ngorau i lunio rhestr o'm hoff bethau i'w gwneud ar hyd y flwyddyn yn y ddinas ryfeddol hon.

Mae Caerdydd yn ffodus gan fod ynddi nifer fawr o barciau i'w mwynhau, p'un ai y bydd yn well gennych eistedd o gwmpas yn ymlacio gyda ffrindiau neu daflu Frisbee nôl ac ymlaen. Fy hoff barc yw Parc y Rhath sydd wedi'i leoli rhwng dau gampws Met Caerdydd. Mae yno lyn enfawr â goleudy a gallwch ddewis logi bad i fynd ar y llyn neu gerdded yn hamddenol o gwmpas y llyn – sy'n boblogaidd gyda phobl sy'n bwydo'r hwyaid a'r rhedwyr fel ei gilydd!

Os mai eich peth chi yw chwaraeon cystadleuol, yna Caerdydd yw'r lle i fod. Yr hydref yma fe wnes i fwynhau mynd i rai o'r gemau rygbi rhyngwladol a gweld Cymru yn cystadlu â rhai o'r timau gorau yn y byd – ac wrth gwrs mae'n draddodiadol gwisgo i fyny



ar gyfer yr achlysur! Mae gemau lleol fel digwyddiad blynyddol Dydd y Farn yn wir werth yr arian hefyd. Fe es i weld fy ngêm hoci iâ gyntaf pan welais Devils Caerdydd mewn gêm gynghrair yn eu cartref newydd yn y Bae lle bydd myfyrwyr yn gallu cael disgownt ar bris y tocynnau.

I'r rheiny mae'n well ganddyn nhw rywbeth mwy hamddenol nag awyrgylch egniol gemau rygbi rhyngwladol, mae'r traeth yn Ynys y Barri ond yn 20 munud i ffwrdd. Daeth yn enwog am iddo fod yn un o leoliadau'r sioe deledu, Gavin a Stacey. Rwy'n mwynhau eistedd ar y tywod, chwarae yn yr arcedau a mwynhau hufen iâ. Drwy'r haf mae Caerdydd yn croesawu nifer o wyliau, yn amrywio o'r

Ŵyl Fwyd a Diod Ryngwladol ym Mae Caerdydd hyd at 'Y Caws Mawr' yng Nghaerffili. Mae'r rhain yn ffordd wych i ddod â ffrindiau at ei gilydd a blasu bwydydd gwahanol o bob rhan o Gymru a thu hwnt.

Yn olaf, un o'm hoff bethau i gyd i'w gwneud yng Nghaerdydd yw mynd i weld sioe gyda'r merched. Mae tair theatr wedi'u lleoli yn y ddinas – y Sherman, Y Theatr Newydd a Chanolfan y Mileniwm – lle y cynhelir cynrychiadau megis sioeau cerdd a sioeau mawr o'r West-End. Rydym wedi mwynhau cynifer o nosweithiau allan yn gwyliop popeth o ddawns fodern i bale a sioeau cerdd. Ynghyd â mwynhau pryd cyn y sioe, dyma'r peth gorau i gyd i gael gwared ar straen arholiadau!



Eich Prifysgol

Siarter y Myfyrwyr a Llawlyfr y Myfyrwyr

Mae Siarter y Myfyrwyr yn nodi'r safonau gwasanaeth y bydd Prifysgol Metropolitan Caerdydd am eu boddhau o ran ei myfyrwyr. Mae'n nodi hefyd yr hyn y byddwn yn ei ddisgwyl ganddyn nhw yn ôl.

www.cardiffmet.ac.uk/studentcharter

Mae Llawlyfr y Myfyrwyr yn ganllaw hawdd cyfeirio ato ar gyfer y cyfleusterau a'r cymorth sydd ar gael ac mae'n galw eich sylw at y rheolau a'r rheoliadau perthnasol yn y Brifysgol.

www.cardiffmet.ac.uk/studenthandbook

Gwasanaethau'r Myfyrwyr

Mae rhwydwaith sylweddol o gymorth ar gael i'ch helpu i addasu i fywyd myfyriwr ac i elwa'n llawn ohono. Ymhlith y rhain mae cynghori, gwasanaeth anabledd, gwasanaeth iechyd myfyrwyr, cyngor ar les a chyllid myfyrwyr, caplaniaeth aml-ffydd, a pharth-g, sef siop-un-safle ar gyfer cyngor ac ymholiadau ym Met Caerdydd. Rydym am i chi deimlo eich bod yn byw ac yn dysgu mewn amgylchedd cefnogol a phositif.

Yn Saesneg o hyd

www.cardiffmet.ac.uk/studentsservices

Cysylltwch â ni:

☎ 029 2041 6170

✉ disability@cardiffmet.ac.uk
financeadvice@cardiffmet.ac.uk
healthservice@cardiffmet.ac.uk
welfareadvice@cardiffmet.ac.uk
careers@cardiffmet.ac.uk

Undeb y Myfyrwyr

Bydd pob myfyriwr ym Met Caerdydd yn dod yn awtomatig yn rhan o Undeb y Myfyrwyr, sydd â'r nod o gynrychioli, cefnogi, ysbrydoli a chynnwys pob myfyriwr. Mae'r Undeb yn cynnig nifer o gyfleoedd i chi gael cymryd rhan ynddynt ac i elwa o'r mwyaf ar eich profiad yn y brifysgol. Caiff myfyrwyr eu hannog i ddefnyddio'r ystafelloedd cyfarfod a'r safleoedd tawel ac i archebu manau undeb y myfyrwyr am ddim ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol.

I gael rhagor o wybodaeth

www.cardiffmetsu.co.uk

Chwaraeon ym Met Caerdydd

Ar hyd eich amser ym Met Caerdydd, cewch eich annog i arfer dull byw iach a bywiog. Bydd aelodaeth o Chwaraeon a Ffitrwydd yn rhoi mynediad i chi i'r cyfleusterau a'r rhaglenni gwych a fydd ar gael ar draws y ddau gampws, a bydd Undeb y Myfyrwyr a'r Undeb Athletau yn rhoi cyfleoedd i chi gael cymryd rhan a chystadlu mewn ystod eang o chwaraeon. P'un ai y byddwch am gystadlu mewn campau elit neu gymryd rhan er mwyn cael hwyl, mae amrywiaeth eang o gyfleoedd gennym i chi gael cymryd rhan mewn chwaraeon a fydd yn agored i bob myfyriwr ar draws pob Ysgol academiaidd.

I gael rhagor o wybodaeth:

www.cardiffmet.ac.uk/sport




Ein ap ffôn symudol i fyfyrwyr, yn rhad ac am ddim, sy'n cynnwys:

- ✓ Mynediad i ebst
- ✓ Mynediad i wasanaethau'r llyfrgell
- ✓ Gweld amserau'r bysiau
- ✓ Gweld manylion personol ac academiaidd
- ✓ Gweld argaeledd cyfrifiaduron
- ✓ Mynediad i Moodle (Rhith-Amgylchedd Dysgu)
- ✓ Map y campws a'r lleoliadau

🌐 www.cardiffmet.ac.uk/mycardiffmet

Ymgylfarwyddo â'r Campws



Campws Llandaf

Allwedd


- 1 Ysgol Reoli Caerdydd / Technolegau
- 2 Canolfan Technoleg Ddeintyddol
- 3 Y Ganolfan Diwydiant Bwy
- 4 Darlithfa (AO.31)
- 5 Llyfrgell a Chanolfan Ddysgu
- 6 Prif Neuadd
- 7 Prif Dderbynf a parth-g
- 8 Derbynf a - Tŷ Morwrol
- 9 Cofrestrfa Academaidd
- 10 Undeb y Myfyrwyr
- 11 Gwasanaethau Myfyrwyr

- 1 Bloc Addysgu A
- 2 Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd (B)
- 3 Podiatreg (C)
- 4 Gwyddorau Iechyd (D)
- 5 Darlithfa (E)
- 6 PDR (F)
- 7 Ysgol Celf a Dylunio Caerdydd (H)
- 8 Tŷ Morwrol (M)
- 9 Adeilad Rheoli (O)
- 10 Swyddfa Ryngwladol
- 11 Gwyddorau Biofeddygol

- £ Santander
- P Parcio
- 🚲 Rhesel beiciau
- 🚏 Safe bws
- 2 - Cylch y Ddinas
- 15 - Yr Ysbyty Athrofaol i'r Orsaf Ganolog

Prif fynedfa'r Campws

Gall dod yn gyfarwydd â'ch ffordd o gwmpas y campws fod yn lletchwith yn yr wythnosau cyntaf. Defnyddiwch y mapiau hyn i'ch helpu i gael dod i wybod eich ffordd o gwmpas y campws.



Campws Cyncoed

Allwedd

- 1 Caffi Bench
- 2 Tŷ'r Coleg
- 3 Canolfan Ddawns
- 4 Bloc V
- 5 Campfa Inclusion
- 6 Bwyty K1
- 7 Darlithfa
- 8 Llyfrgell a Chanolfan Addysg
- 9 Pwll
- 10 Derbynfya a parth-g
- 11 Campfa Russell Rees
- 12 Campfa Sid Aaron
- 13 Neuadd chwaraeon

- P** Parcio
- Rhesel beiciau
- Safle bws
- 14 Cyrtiau sboncen/Bloc S
- 15 Undeb y Myfyrwyr
- 16 Gweithdy Rheoli'r Ystâd
- 17 Ysgol Goedwigaeth
- 18 Tŷ'r Athletwyr
- 19 Tŷ Warwick / Swyddfa Llety
- 20 parth-g, Cyrfaoedd a Gwasanaethau Myfyrwyr

Neuaddau Preswyl

- 1 Baltimore
- 2 Bute
- 3 Clare
- 4 Ellis
- 5 Fizthamon
- 6 Herbert
- 7 Nantes
- 8 Neville
- 9 Queenswood
- 10 Stradling
- 11 Stuttgart
- 12 Thomas House
- 13 Bungalow



Eich rhestr wirio

- ✓ Rwyf wedi ymweld â thudalennau ffioedd dysgu ar y we - www.cardiffmet.ac.uk/pgfinance - ac wedi cyrchu'r 'Canllaw i Ffioedd Dysgu' er mwyn cael gwybodaeth am dalu ffioedd
- ✓ Rwyf wedi anfon tystiolaeth o bob un o'm cymwysterau drwy sganio ac ebostio fy nhystysgrifau i: directapplications@cardiffmet.ac.uk
- ✓ Rwyf wedi ymweld â gwefan 'Myfyrwyr Newydd' er mwyn cyrchu'r Wybodaeth Ymuno â'r Rhaglen yma: www.cardiffmet.ac.uk/newstudents
- ✓ Rwyf wedi sicrhau bod cyfeiriad fy ebost cyfredol gan Met Caerdydd fel na fyddaf yn colli unrhyw wybodaeth bwysig yn ymwneud â'm cwrs
- ✓ Rwyf wedi ymgyswrtio â chynnwys Siarter y Myfyrwyr: www.cardiffmet.ac.uk/studentcharter a Llawlyfr y Myfyrwyr: www.cardiffmet.ac.uk/studenthandbook
- ✓ Rwyf wedi darllen ac wedi deall Telerau ac Amodau fy nghynnig: www.cardiffmet.ac.uk/terms

www.cardiffmet.ac.uk/newstudents